# Cwestiynau Cyffredin – System BVDCymru

## 1. Beth mae'r teils ar y dudalen BVDCymru yn ei olygu?

**Statws BVD fy CPH:** Yn dangos statws firws eich daliad, ynghyd â'r statws symud a neilltuwyd. Ar y dudalen hon, gallwch hidlo anifeiliaid yn ôl rhif tag clust a lawrlwytho eich tystysgrif BVDCymru (ar gael dim ond os oes gan y daliad statws negatif).

**Canlyniadau Profion:** Yma mae'n dangos yr holl brofion BVD sydd wedi'u cynnal a'u cyflwyno i system BVDCymru, gan gynnwys y dyddiad, nifer yr anifeiliaid a brofwyd, math o brawf, statws BVD buches a rhif cyfeirnod. Gallwch glicio ar 'gweld', lle bydd yn dangos i chi yr anifeiliaid a gafodd eu profi, rhannu'r canlyniadau gyda'ch milfeddyg, a lawrlwytho'r dystysgrif BVDCymru (ar gael dim ond os oes gan y daliad statws negatif). Dim ond profion BVD a gynhelir ar ddaliadau yng Nghymru fydd ar gael i'w gweld ar BVDCymru.

**Chwilio am BVD CPH:** Yma mae'n caniatáu i chi nodi rhif CPH yng Nghymru i wirio ei statws firws BVD cyfredol a'i statws symud.

**Chwilio am BVD Anifail:** Yn debyg i Chwilio am BVD CPH ond gan ddefnyddio rhif tag clust anifail yn lle hynny. Mae hyn yn dangos statws BVD yr anifail yng Nghymru a'r CPH y mae'r anifail wedi'i leoli ynddo.

**Canlyniadau wedi'u rhannu:** Yma mae'n dangos y canlyniadau profion BVD sydd wedi'u rhannu gyda chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ganlyniadau'r profion, cysylltwch â'ch practis milfeddygol.

**Cynnal y prif bractis milfeddygol:** Ar yr eicon hwn bydd yn dangos eich practis milfeddygol BVD sydd wedi'i neilltuo i chi, gan gynnwys enw a chyfeiriad y practis milfeddygol. Gallwch ddiweddaru a chadw'r manylion hyn os oes angen i chi newid eich practis milfeddygol BVD.

## 2. Ble alla i weld fy nghanlyniadau prawf BVD?

Mewngofnodwch i Iechyd Anifail EIDCymru i weld statws BVD eich buches. Gallwch weld eich canlyniadau profion trwy glicio ar yr eicon Canlyniadau Profion. Mae'n cynnwys dyddiad y prawf, nifer yr anifeiliaid a brofwyd, math o brawf, statws y fuches a'r rhif cyfeirnod. O'r adran hon, os oes gan eich daliad statws negyddol, gallwch hefyd lawrlwytho eich tystysgrif BVDCymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich canlyniadau, cysylltwch â'r practis milfeddygol a gynhaliodd y profion.

## 3. Ble alla i weld fy mhrawf sgrinio blynyddol nesaf?

Mewngofnodwch i Iechyd Anifail EIDCymru, yna cliciwch ar yr eicon Statws BVD Fy CPH, ac o dan statws y CPH bydd yn rhoi gwybod i chi pryd fydd angen cynnal eich prawf sgrinio blynyddol nesaf.

## 4. Sut alla i ddewis fy hoff filfeddyg BVD?

Gellir gwneud hyn wrth gofrestru, neu gellir ei wneud gan y milfeddyg neu Ddesg Wasanaeth BVDCymru. Gallwch newid hyn hefyd drwy glicio ar yr eicon Cynnal y prif bractis milfeddygol, yna cliciwch ar golygu a dewis eich milfeddyg BVD newydd o'r gwymplen.

## 5. Ydw i'n gallu rhannu canlyniadau fy mhrofion gyda fy milfeddyg neu unrhyw filfeddyg arall?

Ydych, gallwch rannu eich canlyniadau gyda'ch milfeddyg dewisol. I wneud hyn, ewch i'r eicon Canlyniadau Profion, edrychwch ar eich canlyniadau ac oddi yma gallwch glicio Rhannu canlyniadau gyda milfeddyg, dewiswch ganlyniadau'r anifeiliaid rydych chi am eu rhannu ac yna dewiswch eich milfeddyg o'r gwymplen a chlicio rhannu.

## 6. Mae angen i mi newid manylion fy milfeddyg; sut ydw i'n gwneud hyn?

Gallwch wneud hyn drwy glicio ar yr eicon Cynnal y prif bractis milfeddygol, yna cliciwch ar golygu a dewiswch eich milfeddyg BVD newydd o'r gwymplen.

## 7. A gallaf argraffu tystysgrif BVD fel y rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol gan 'Gwaredu BVD'?

Bydd tystysgrif ar gael i'w hargraffu drwy glicio ar Fy statws CPH BVD a sgrolio i waelod y dudalen, lle bydd botwm Lawrlwytho tystysgrif BVDCymru yn ymddangos. Dim ond ar gyfer daliadau sydd â statws negatif y bydd hwn ar gael.

## 8. Pam na allaf rannu anifail â haint parhaus (PI) gyda milfeddyg neu geidwad?

Ni ellir byth symud yr anifeiliaid hyn i ddaliad arall. Dylech eu difa nhw. Os ydych chi'n penderfynu cadw anifeiliaid PI, yna rhaid iddynt gael eu hynysu am oes. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i BVDCymru.

## 9. Rydw i eisiau gwerthu fy anifeiliaid; sut ydw i'n rhannu canlyniadau fy mhrofion gyda cheidwad arall?

I rannu canlyniadau eich prawf gyda cheidwad arall, ewch i'r eicon Canlyniadau Profion, gweld eich canlyniadau ac oddi yma gallwch glicio Rhannu canlyniadau gyda CPH, dewiswch canlyniadau'r anifeiliaid rydych chi am eu rhannu, yna nodwch rif CPH y daliad rydych am rannu'r canlyniadau ag ef a chliciwch rhannu.

## 10. Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn cwblhau fy mhrawf sgrinio blynyddol ar amser?

Bydd statws y CPH yn newid i BVD Ddim yn negyddol a bydd eich daliad yn cael ei roi o dan gyfyngiadau symud. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i BVDCymru.

## 11. Beth ydw i'n ei wneud os ydw i'n geidwad nad yw'n ddigidol?

Caiff ceidwaid nad oes ganddynt gyfrif eu hannog i gofrestru. Bydd Desg Wasanaeth EIDCymru yn hapus i'ch helpu i gofrestru am gyfrif ar-lein ac ateb eich cwestiynau. I gael cymorth a chefnogaeth ynghylch BVD, cysylltwch â Desg Wasanaeth EIDCymru ar **01970 636 959**.

OGL © Hawlfraint y Goron 20XX, Llywodraeth Cymru, WGxxxxx
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg